



Coeden  
Odarllen  
Rhydychen

# Hanes y Patrwm Helyg



Roderick Hunt  
Alex Brychta



Roedd Cad a Dids mewn sêl cist car.  
Gwelsant Nadim.

“Nadim! Draw fan hyn!” galwodd Cad.  
Rhedodd Nadim atynt. Roedd wedi prynu  
rhywbeth yn y sêl.



Plât glas a gwyn oedd o. Dangosodd y plât i Cad a Dids.

“Dyma anrheg i Mam,” meddai Nadim.  
“Plât patrwm helyg ydy o. Mae Mam yn eu casglu.”

“Pam ei fod yn cael ei alw yn blât patrwm helyg?” gofynnodd Dids.

“Dydw i ddim yn gwybod,” meddai Nadim,  
“ond rydw i’n meddwl bod y patrwm yn adrodd stori.”

“Tybed beth ydy’r stori?” meddai Cad.




Edrychodd Mam a Dad ar blât Nadim.  
“Dyma anrheg i Mam,” meddai Nadim.  
Gofynnodd Cad a gâi Nadim ddod i chwarae.  
Felly aeth Nadim i chwarae gyda Cad a Dids.



Aethant i fyny i ystafell wely Cad.  
“Beth wnawn ni chwarae?” gofynnodd  
Nadim.  
“Dydw i ddim yn gwybod,” meddai Cad.  
Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud  
ddisgleirio.



Aeth yr hud â'r plant ar antur newydd.  
"Beth sy'n digwydd?" galwodd Nadim.  
"Help!" meddai Cad. "Mae popeth yn  
troi'n las!"



"Dyma le rhyfedd!" meddai Dids. "Dyma  
goed rhyfedd!"

"Mae popeth yn edrych yn las a gwyn,"  
meddai Nadim. "Rydym yng Ngwlad y  
Patrwm Helyg."



Roedden nhw mewn gardd fawr. Roedd ganddi wal uchel o'i chwmpas ac roedd coed glas ynddi.

“Galla i weld dŵr,” meddai Cad. “Ydy’r ardd ar lan y môr?”

“Na, mae ar lan llyn,” meddai Nadim.

“Dyna bont,” meddai Cad. “Mae’n debyg i honno ar y plât.”

“Galla i weld tŷ bychan ger y dŵr,” meddai Dids.



Gwelsant ferch ger y llyn. Roedd hi ar ei phen ei hun.

“Mae hi’n edrych yn drist,” meddai Cad.  
“Pam ei bod ar ei phen ei hun, ac yn crio?”



Kim Shee oedd enw’r ferch. Roedd hi’n byw yn y tŷ bychan ger y llyn. Roedd ganddi dad creulon. Doedd hi ddim yn cael gadael yr ardd.



Roedd Kim mewn cariad gyda Chang.  
Roedd eisiau ei briodi. Ond roedd Chang yn  
rhy dlawd. Roedd tad Kim eisiau iddi briodi  
gŵr cyfoethog, ond roedd Kim yn caru  
Chang.



Clywodd Kim Shee Chang yn galw.  
“Kim Shee,” galwodd. “Wyt ti ar dy ben dy  
hun?”  
“Chang!” meddai Kim. “Sut y doist ti yma?”  
“Nofiais ar draws y llyn,” meddai Chang.  
“Welodd neb mohona i.”





“O!” meddai Kim. “Rwyd ti’n oer ac yn wlyb.”

“Dim ots,” meddai Chang. Ond roedd ar Kim Shee ofn.

“Mae’n rhaid i ti fynd,” meddai. “Dydw i ddim eisiau i Dad dy weld.”

“Mae’r ardd fel carchar,” meddai Chang. “Dydy dy dad ddim eisiau i ti adael.”

“Ond beth allwn ni ei wneud?” gofynnodd Kim.

“Mae’n rhaid i ni ddianc,” meddai Chang. “Yna, ca i dy briodi.”



“Ond sut alla i adael yr ardd?” gofynnodd Kim. “Mae gwarchodwyr ymhob man.”

“Paid â phoeni,” meddai Chang.  
“Meddylia i am rywbeth.”



Clywodd Kim frigyn yn torri.

“Mae rhywun yn ein gwylio!” ebychodd hi. Neidiodd Chang ar ei draed. Daliodd frigyn i'r awyr.

“Pwy sydd yna?” galwodd.



Yna, gwelsant Cad, Dids a Nadim.  
“Peidiwch â bod ofn,” meddai Cad.  
“Rydym yn ffrindiau.”

“Dydyn ni erioed wedi gweld plant fel chi o’r blaen,” ebychodd Chang. “Sut ddaethoch chi i mewn i’r ardd?”

“Doedden ni ddim yn bwriadu gwranddo,” meddai Dids, “ond clywsom eich hanes.”

“Rydyn ni’n gwybod eich bod eisiau dianc,” meddai Cad.

“Ond sut allwn ni?” gofynnodd Kim. “Mae gwarchodwyr o gwmpas yr ardd.”



Cafodd Nadim syniad da. Dywedodd wrth y lleill.

“Dyna syniad ardderchog!” meddai Dids.

“Rydw i’n siŵr y bydd yn gweithio,” meddai Cad.

“Ond beth os cawn ein dal?” gofynnodd Chang.

“Oes gen ti syniad gwell?” gofynnodd Cad.

“Nac oes,” meddai Chang. “Dyma ein hunig gyfle.”

“Yn gyntaf, rhaid i chi guddio,” meddai Nadim.

“Yna, byddwch yn barod i redeg dros y bont,” meddai Dids.



“Mae’n rhaid i ni baratoi,” meddai Nadim.  
Roedd gan Kim wregys hir am ei chanol.

“Tyrd â dy wregys i mi, Kim,” meddai  
Cad. Rhoddodd Kim y gwregys i Cad.  
Clymodd Cad wregys Kim i’r bont.



Roedd coed lemwn yn yr ardd. Dringodd  
Nadim a Dids un ohonynt. Casglodd y ddau  
gymaint o lemwnau â phosib. Yna arhoson  
nhw.



Cuddiodd Kim a Chang ger y bont.  
Daliodd Cad ben y gwregys.

“Rydw i’n gobeithio y bydd syniad Nadim yn gweithio,” meddyliodd. Galwodd Nadim o’r goeden.

“Cynllwyn y Patrwm Helyg – ar unwaith!” meddai.



Dechreuodd Dids a Nadim weiddi ar y gwarchodwyr.

“Dewch i’n nôl ni!” bloeddiodd y ddau.  
“Rydyn ni’n fan hyn.”

Rhedodd y gwarchodwyr i mewn i’r ardd.  
Rhedasant tuag at dŷ bychan Kim Shee.



Gan fod y gwarchodwyr yn yr ardd,  
cafodd Kim Shee a Chang gyfle i ddianc.  
Rhedodd rhywun arall i mewn i'r ardd hefyd.


“Mae fy nhad yn dod!” ebychodd Kim  
Shee.



Dechreuodd Kim a Chang redeg, ond  
gwelodd y gwarchodwyr nhw.

“Rhwystwrch nhw!” gwaeddodd tad Kim  
Shee.

Taflood Nadim a Dids y lemwnau at y  
gwarchodwyr.



Rhedodd Chang a Kim Shee dros y bont.  
Rhedodd y gwarchodwyr ar eu hôl. Roedd  
Cad yn barod.

“Rydw i’n gobeithio fod gwregys Kim yn  
gryfl!” meddai.  
Rhedodd y gwarchodwyr ar y bont.

Tynnodd Cad y gwregys yn dynn. Baglodd  
y gwarchodwyr drosto. Cwmpodd y ddau  
gyda chlep.

“Y ffyliaid!” gwaeddodd tad Kim Shee.





Dringodd Dids a Nadim i lawr o ben y goeden lemwn. Rhedodd y ddau i chwilio am Cad. Gwelodd tad Kim Shee y ddau.  
“Daliwch y plant yna!” bloeddiodd.



“Da iawn, Cad!” meddai Dids. “Mae Kim a Chang wedi dianc!”

“Rydw i’n gobeithio y gallwn ninnau ddianc,” meddai Cad. Roedd yr allwedd hud yn disgleirio.

“Hwrê! Mae hi’n amser mynd!” meddai hi.



“Am antur!” meddai Dids. Cododd Nadim ei blât ac edrych arno.

“Tybed beth ydy hanes go iawn y patrwm helyg?” gofynnodd.



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 7  
Rhagor o Storiâu B

# Hanes y Patrwm Helyg



Mae'r hud yn arwain y plant i  
Wlad y Patrwm Helyg.



Cam 6 Rhagor o Storiâu B

Cynllun Arbennig Dad  
Ynys y Drych  
Paid â Bod yn Wirion

Cam 7 Rhagor o Storiâu B

Hanes y Patrwm Helyg  
Y Peiriant Jôcs  
Antur y Llong Danfor

Addasiad Cymraeg gan  
Llinos Griffin

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 2003  
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2006  
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-839-5



9 780861 748396 >

[www.drakeeducational.com](http://www.drakeeducational.com)

**DRAKE**

Argraffwyd yng Nghymru